



www.ysgolbotwnnog.org



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ **DIOGELWCH**
- ✓ **PRESENOLDEB**
- ✓ **DYDDIADAU PWYSIG**
- ✓ **CANLYNIADAU**
- ✓ **YMDDYGIAD DA AR Y BYSUS**
- ✓ **CANLYNIAD HOLIADURON**
- ... **A MWY**

GAIR GAN Y PRIFATHRO



Mr Gareth T.M. Jones

Croeso'n ôl ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd i'r holl ddisgyblion. Croeso arbennig i 63 o ddisgyblion Blwyddyn 7. Bellach mae 380 o ddisgyblion ar lyfrau'r ysgol. Dymunwn flwyddyn hapus a llwyddiannus i'r disgyblion oll.

Dyma Fwletin Rhieni cyntaf y flwyddyn ysgol newydd. Ei fwriad yw darparu gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid a sicrhau cysylltiad effeithiol rhwng yr ysgol a'r cartref.

Paratoir Bwletin ar eich cyfer ar ddechrau pob tymor.

STAFF

Croeso i'r staff newydd

Mr. Cai Boardman – Ffiseg;

Mr. Gareth Hodgson – Addysg Gorfforol.

Newidiadau

Mrs. Melissa Minnice – Pennaeth Saesneg;

Mr. Geraint Williams – Mathemateg (Tymor yr Hydref);

Mrs. Angela Rhydderch – Cymraeg (dros gyfnod mamolaeth Miss Awen Griffith).

Ymdeoliad hir a hapus i Miss Iola Jones, Mathemateg a Busnes a Mr. Ieuan Williams, Addysg Gorfforol.

Dymuniadau gorau i Mrs. Mair Evans, Gwyddoniaeth. Diolch i'r tri am eu cyfraniad i'r ysgol.

PROBLEM? CWESTIWN? CŴYN?

Mae enw da i'r ysgol o safbwynt gofalu am les a datblygiad academiaidd y disgyblion.

Pan fo disgybl yn poeni am rywbeth ac yn anhapus fe wyddoch fel rhieni y gallwch ffonio'r ysgol ar 01758 730220 i drafod unrhyw fater â'r Prifathro. Ceisiwn ymateb i'ch problem o fewn 24 awr.

DIOGELWCH MEWN YSGOLION

Mae materion diogelwch yn cael sylw arbennig mewn ysgolion yn dilyn rhai digwyddiadau trist iawn yn y gorffennol. Croesewir rhieni i'r ysgol os dymunant drafod unrhyw fater ond gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol er mwyn trefnu'r ymweliad ymlaen llaw. Gofynnir i bob ymwelydd fynd i'r brif swyddfa wrth ymyl y brif fynedfa, lle dosberthir bathodynau ymwelwyr. Gofynnir i chi beidio â chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau unigol o staff yr ysgol ond, yn hytrach, cyflwyno unrhyw gais i'r Pennaeth. 'Rydym yn awyddus i sicrhau awyrgylch ddiogel ar gyfer ein disgyblion gan sicrhau ar yr un pryd, gyfathrebu effeithiol gyda rhieni ac ymwelwyr.

GWISG YSGOL

Diolch i chi fel rhieni am gefnogi ein polisi Gwisg Ysgol.

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd mae'n braf medru adrodd fod y disgyblion i gyd yn edrych yn drwsiadus iawn ac yn raenus yn y wisg ysgol briodol. Diolch yn arbennig i chi am forol fod y disgyblion yn gwisgo esgid / trainer ddu. Mae pob disgybl wedi ymateb i'r cais am esgidiau / trainers unlliw du. (Mae trainers duon ar werth mewn siopau lleol megis 'Llŷn Sports' a siopau yn Abersoch).

Trowsus du (nid denim du na cords) i'r bechgyn. Trowsus du plaen wedi'i deilwrio neu sgert ysgol blaen ddu rhesymol o hyd **gyda teits duon** i'r merched.

Wrth i'r tywydd droi hoffwn bwysleisio'r ffaith nad yw'r disgyblion i wisgo unrhyw dop na siaced o fewn adeilad yr ysgol yn lle'r crys chwys du swyddogol. Rhaid tynnu unrhyw gôt **ddu** wrth ddod i fewn i'r adeilad.

Ni chaniateir i ddisgyblion wisgo

- (i) **breichledau aur, rwber, plastig ar arddwrn na chadwyni o amgylch y gwddw.**
- (ii) **beltiau / gwregysau arian neu liw llachar amlwg.**

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os am wybodaeth ynglŷn â grantiau sirol gwisg ysgol.

'Rydym yn anelu bob amser yn yr ysgol at sicrhau safonau uchel mewn gwisg ac ymddangosiad yn ogystal â sicrhau safonau uchel mewn gwaith ac ymddygiad.

Ni allwn wneud hyn yn effeithiol heb eich help chwi fel rhieni. Diolch i chi am eich cydweithrediad ac am bob cefnogaeth i Ysgol Botwnnog.

Gellir prynu gwisg yr ysgol yn ein swyddfa drwy'r flwyddyn. Cysylltwch â Mrs. Nerys Williams yr ysgrifenyddes.

ABSENOLDEB DISGYBLION

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw'r disgyblion i fanteisio yn llawn ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt. Er mwyn cynnal a gwella presenoldeb yn yr ysgol rydym wedi mabwysiadu **trefn gyswllt diwrnod cyntaf.** Gofynnir i chi ddilyn y camau isod pan fydd eich plentyn yn absennol.

Hoffwn i chi ffonio'r ysgol ar 01758 730220, neu drwy e-bost at pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk rhwng 8.00 a 9.15 o'r gloch ar y bore cyntaf y mae eich plentyn yn absennol.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9.15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna bwriedir cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

CAIS AM WYLIAU TEULU YN YSTOD Y TYMOR

Rydym wedi derbyn arweiniad gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â hyn. Nid ydym o blaid rhyddhau disgyblion yn ystod tymor ysgol ar gyfer gwyliau teulu. Gofynnwn am eich cydweithrediad i osgoi sefyllfaoedd o'r fath. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn ymwybodol mor anodd yw hi i rieni fynd ar wyliau yn ystod y cyfnodau gwyliau ysgol oherwydd prysurdeb y diwydiant ymwelwyr yn Llŷn. Dylid cyflwyno unrhyw gais i sylw'r Prifathro.

Mae'n bwysig fod disgyblion Blwyddyn 10 ac 11 yn yr ysgol bob dydd. **Ni ddylent fynd ar wyliau mewn blwyddyn mor dyngedfennol.** Nid oes caniatâd i dynnu disgyblion Blwyddyn 10 / 11 o'r ysgol am wyliau. Os gwneir hynny bydd y disgybl yn cael ei farcio fel 'Absenoldeb Anawdurdodedig'.

PRESENOLDEB

Longyfarchiadau i'r disgyblion canlynol oedd â 100% presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2013 / 2014.

- 8 Madrun** – Fflur Parry-Hughes.
- 8 Meillionydd** – James Brookes, Cerys Jones, Tomos Siôn Jones, Now Williams.
- 8 Mellteyrn** – Iliw Jones-Evans.
- 9 Madrun** - Cadi Jones, Gwawr Williams, Lleucu Williams.
- 9 Meillionydd** – Hari Fitzpatrick, Nathan Miller, Osian Morgan.
- 10 Madrun** – Joseff Jones, Lois Thomas.
- 10 Mellteyrn** – Finn Evans.
- 11 Madrun** – Laura Brookes.
- 11 Mellteyrn** – Jac Jones.

Rhoddyd gwobr o £10 yr un iddynt ac i aelodau y dosbarth â'r presenoldeb gorau 7 Madrun.



PRESENOLDEB GWYCH

Rhai o ddisgyblion yr ysgol yn derbyn tystysgrif a gwobr am eu presenoldeb gwyd y flwyddyn ddiwethaf

TYNNU LLUNIAU PLANT

O dro i dro bydd yr ysgol / Cyngor Sir / y Wasg eisiau tynnu lluniau o weithgareddau'r ysgol. Bydd rhai o'r lluniau yn cael eu hanfon i'r papur newydd, **Llanw Llŷn** neu yn cael eu defnyddio mewn cyhoeddiadau neu ar wefan yr ysgol neu'r Cyngor neu at bwrpas asesu gwaith llafar ac ymarferol.

Os nad ydych yn fodlon i'ch plentyn gael ei gynnwys mewn lluniau yna cysylltwch â'r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda.

CANLYNIADAU HAF 2014

'Roedd y canlyniadau TGAU yn rhai da. Llwyddodd 83% (89% yn 2013) o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill 5 TGAU neu fwy graddau A* - C. Cafodd 100% 5 TGAU neu fwy, graddau A* - G (99% yn 2013). **Mae'r canrannau uchod yn uwch na'r canrannau sirol a chenedlaethol.**

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol. Diolch i'r athrawon a'r rhieni am baratoi'r disgyblion mor drwyadl a'u cefnogi dros y ddwy flynedd diwethaf. Gwerthfawrogi y lluo o gardiau gan ddisgyblion a rhieni yn diolch i'r ysgol.

GWAITH CARTREF

Byddwch yn derbyn y Polisi a'r Amserlen Gwaith Cartref. Gofynnwn am eich cydweithrediad fel rhieni i sicrhau fod eich plant yn cwblhau Gwaith Cartref. **Y disgybl sy'n cwblhau Gwaith Cartref yn rheolaidd sy'n llwyddo orau fel arfer yn yr arholiadau TGAU.**

CLWB GWAITH CARTREF

Pob nos Lun a Mercher o 3.30 - 5.00 mae cyfle i ddisgyblion aros yn yr ysgol yn y Llyfrgell a'r Ganolfan Adnoddau i gwblhau Gwaith Cartref a Gwaith Cwrs ac i gael gwersi ychwanegol mewn pynciau megis Saesneg a Mathemateg. 'Roedd mwyafrif y disgyblion a fanteisiodd ar y gwasanaeth hwn y llynedd wedi codi graddau o D i C ac uwch. Trefnir i ddanfôn y disgyblion gartref gyda bws mini yr ysgol.

GWOBRAU'R YSGOL 2014

TLWS COFFA IDRIS WILLIAMS - "Dinesydd y flwyddyn"

Demi Davies, Blwyddyn 11 a Wil Chidley, Blwyddyn 11.

TARIAN PENCAMPWR CHWARAEON

Magi Hughes, Blwyddyn 11.

TLWS COFFA GLYN JONES - Rygbi

Iwan John Griffith, Blwyddyn 11.

TARIAN GOLFF

Tom Froom, Blwyddyn 10.

GWOBR GOFFA LEWIS ROBERTS

Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth, Mathemateg, Technoleg – James Pearson, Blwyddyn 11.

GWOBR URDD LIFRAI CYMRU - Myfyriwr rhagorol

Mari Evans, Blwyddyn 11, Lois Llywelyn Williams, Blwyddyn 11

TLWS DEWI WYN - Pêl-droed Blwyddyn 7

Meillionydd Hotspurs



PENCAMPWR GOLFF YR YSGOL

Tom Froom (Bl 11) sydd yn disgleirio ar y gamp yn genedlaethol yn ogytai â lleol

CYNGOR DISGYBLION

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol ar gael eu dewis yn aelodau o Gyngor Disgyblion yr Ysgol:-

Bl.	Madrn	Meillionydd	Mellteyrn
7	Keirion Williams Elin Owen	Tomos Dobson Megan Lily Jones	Angharad Hughes Tomos Hughes
8	Huw Jones-Evans Mari Lois Evans	Beca Hughes Ioan Parry	Ela Parri Jack Scott
9	Ruben Chorlton Owen Mari Elin Jones	Harri Fitzpatrick Cari Fuller	Rhydian Rees Jones Eluned Hughes
10	Tara Thomas Tomos Davies	Rebeca Rice Hughes Ifan Siôn Hughes	Non Owen Mathew Alan Jones
11	Tomos Turtle Mirain Brady	Bedwyr Williams Gwenllian Evans	Lea Pugh Heledd Huws

RHAI DYDDIADAU PWYSIG

TYMOR YR HYDREF (2014)Medi 2 - Rhagfyr 19

Gwyliau Hanner Tymor Hydref 27 - 31

Gwyliau Nadolig Rhagfyr 22, 2014 - Ionawr 2, 2015

TYMOR Y GWANWYN (2015) Ionawr 5 – 27 Mawrth, 2015

Gwyliau Hanner Tymor Chwefror 16 - 20

Gwyliau'r Pasg 30 Mawrth – 10 Ebrill

TYMOR YR HAF (2015) Ebrill 13 - Gorffennaf 17

Calan Mai Llundun, Mai 4, 2015

Gwyliau Hanner Tymor 25 - 29 Mai, 2015

Gwyliau'r Haf Gorffennaf 20, 2015

DIWRNODAU HYFFORDDIANT STAFF (Dim ysgol i'r plant)

Dydd Llundun, 6 Hydref, 2014.

Dydd Gwener, 24 Hydref, 2014.

Dydd Gwener, 30 Ionawr, 2015.

CYFARFOD I RIENI AC ATHRAWON

I DRAFOD GWAITH DISGYBLION AR NOS FAWRTH - 4.00 y.h. HYD AT 6.00 y.h.

Blwyddyn 7 Tachwedd 4, 2014

Blwyddyn 9 Ionawr 13, 2015

Blwyddyn 11 Ionawr 27, 2015

Blwyddyn 10 Mawrth 3, 2015

Blwyddyn 8 Mawrth 17, 2015

ARHOLIADAU

SWYDDOGOL - ALLANOL

Mathemateg, Set 2, Blwyddyn 11 Tachwedd 5, 2014 a Tachwedd 10, 2014

Bioleg (ail sefyll) Ionawr 07, 2015

Saesneg Llên (Bl 11) (ail sefyll) Ionawr 08, 2015

Saesneg Iaith (Bl 11) Ionawr 12, 2015

Cemeg (ail sefyll) Ionawr 13, 2015

Ffiseg (ail sefyll) Ionawr 15, 2015

Blwyddyn 11 (Celf) Mawrth 9 – 13, 2015

Blwyddyn 11 (TGAU yn cychwyn) Mai 8, 2015

Blwyddyn 10 (Ast. Crefyddol) Mai 11, 2015

Blwyddyn 10 (Saesneg Llen) Mai 18, 2015

Blwyddyn 10 (Busnes) Mai 20, 2015

Blwyddyn 10 (Bioleg) Mehefin 9, 2015

Blwyddyn 10 (Cemeg) Mehefin 12, 2015

Blwyddyn 10 (Ffiseg) Mehefin 15, 2015

Blwyddyn 10 (Hanes) Mehefin 16, 2015

ARHOLIADAU MEWNOL

Blwyddyn 11 (TGAU) Ffug Rhagfyr 15 – 19, 2014

Blwyddyn 7, 8, 9 a 10 Mehefin 22 – 26, 2015

Profiad Gwaith Blwyddyn 10 Mehefin 29 – Gorff. 3, 2015

Gwybodaeth pellach am arholiadau Bl 10 ac 11 i ddod—Efallai y bydd rhai newidiadau yn ystod y flwyddyn.

GWASANAETH CWNSELA

Mae gwasanaeth proffesiynol a chyfrinachol ar gael i unrhyw ddisgybl sy'n wynebu problemau emosiynol. Dyma wasanaeth sy'n canolbwyntio ar ddisgywyr ac yn ceisio ymateb i'r amrywiaeth o faterion a heriau a wynebir gan bobl ifanc. Gall y disgybl, y rhiant neu'r ysgol gyfeirio disgyblion at y gwasanaeth hwn. Mrs Vida Kennedy o Gyngor Sir Gwynedd yw'r Cwnselydd fydd yn yr Ysgol bob dydd Mawrth. Gellir trefnu apwyntiad â hi trwy hysbysu Mr Geraint Hughes y Dirprwy.

ANOGWR DYSGU / CYMORTH PERSONOL / HELP YCHWANEGOL

Os yw eich mab / merch angen help gyda Gwaith Cartref neu gymorth i gael gwell trefn ar eu gwaith neu gymorth ynglŷn â'u gwaith yn gyffredinol cysylltwch â'r Ysgol. Mae cymorth proffesiynol i'w gael yn yr Ysgol.

LLYFRAU YSGOL

Os oes gennych lyfrau sy'n perthyn i'r ysgol (Llyfrau Llyfrgell neu werslyfrau pynciol) a fuasech garediced â'u dychwelyd i'r ysgol?

YMDDYGIAD DA AR Y BYSIAU

Mae'n holl bwysig fod y disgyblion yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Cyfrifoldeb y disgyblion yw:-

- Eistedd mewn sedd ac nid sefyll
- I beidio taflu sbwriel nac unrhyw offer
- I beidio difrodi eiddo y bus
- I beidio ysmegu
- I beidio bwlio
- I beidio tynnu sylw y dreifar drwy gamymddwyn
- I wisgo gwregys diogelwch os oes un ar gael
- I beidio croesi'r ffordd o flaen nac yn agos at gefn y bus.

Gair i'ch hatgoffa mai bwsiau ysgol ac nid bwsiau 'serfis' yw bwsiau Abersoch a Phyllheli ar gyfer y disgyblion sy'n teithio'n ddyddiol yn unig y mae'r bwsiau hyn. Nid oes caniatâd i blant (ar wahân i'r teithwyr arferol) fynd o'r ysgol i Bwllheli.

Dywedwch wrth yr ysgol am unrhyw ymddygiad gwael neu fwlio rydych yn ei weld ac yn clywed amdano. Mae hawl gan yr ysgol i wahardd disgyblion rhag teithio ar fwsiau ysgol. Pan fo'r ysgol yn gwahardd cyfrifoldeb y rhieni yw cludo eu plant i ac o'r ysgol.

Gellir cael copi o'r Côd Teithio drwy gysylltu â'r ysgol.



PNAWN O DDIDDANWCH


Un o grwpiau BAC blwyddyn 10 y llynedd yn cynnal prynhawn o ddiddanwch ar gyfer disgyblion o Ysgol Hafod Lon



DIWRNOD IEITHOEDD EWROP

Disgyblion yr ysgol yn cynnal gwasanaeth arbennig ar gyfer diwrnod ieithoedd ac yn rhoi croeso cynnes i Felipe—disgybl newydd sydd wedi ymuno â ni o Sbaen eleni.


Bienvenido Felipe!



CANLYNIAD HOLIADUR DISGYBLION HAF 2014

DYMA GANLYNIADAU'R HOLIADUR A LENWYD GAN HOLL DISGYBLION YR YSGOL CYN GWYLIAU'R HAF

		☺	☹
1.	Fel arfer rwyf yn teimlo'n saff a diogel yn yr ysgol.	99%	1%
2.	Fel arfer rwyf yn teimlo'n hapus yn yr ysgol.	93%	7%
3.	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.	90%	10%
4.	Mae'r newidiadau yn yr ystafelloedd newid yn y gampfa wedi eu gwneud yn fwy preifat a chyfforddus.	92%	8%
5.	Caf fy nhrin yn deg gan aelodau o staff yr ysgol.	90%	10%
6.	Mae adeiladau ac offer yr ysgol yn lân, diogel a saff.	92%	8%
7.	Yn yr ysgol hon ni chaiff disgyblion eu pryfocio oherwydd eu bod yn wahanol.	72%	28%
8.	At bwy fuasech yn mynd os yn poeni?	Athrawon, Prifathro, Mr Geraint Hughes, Mr Minnice, Mrs Japheth, Miss Ffion Jones, Cymorthyddion, Rhieni, Ms Kim Williams, Mrs Healy, Ffrindiau, Nyrs	
9.	At bwy fuasech yn troi os ydych eisiau cwyno am rywbeth?	Prifathro, Mr Geraint Hughes, Mr Minnice, Mrs Japheth, Athrawon, Cymorthyddion, Miss Ffion Jones, Cyngor, Nyrs	
10.	Ble fuasech yn gosod y Bocs Cwynion / Pryderon / Argymhellion?	Swyddfa, Neuadd, Llyfrgell, Yn y dosbarth, Cyntedd, Gampfa,	
11.	Nodwch y côd diweddaraf.	93% yn cofio'r côd	
12.	Beth yw eich barn am y cloeon ar y drysau?	Syniad da - 76% Diflas ond mwy diogel – 18% Dim eu hangen – 6%	
13.	Unrhyw newidiadau yr hoffech weld o safbwynt lechyd a Diogelwch?	Neb i ddringo coed, Croesfan Sebra, Ffens Astro, Astro yn y gaeaf, popeth yn saff, ffram metal yn y neuadd, masgiau wrth losgi sulfur, Nyrs i ddod yn amlach	
14.	Ar unrhyw ddiwrnod ysgol arferol oes rhywbeth yn peri pryder i chi? e.e. wrth gofrestru, yn y gwersi, amser egwyl neuc ginio, bws adref....	Cyn profion ac arholiadau, ar y bws adref ar addegau, ffens astro yn gam, pob dim yn dda, ambell wers, gwersi gwaith llafar, teimlo yn iawn bob dydd	
15.	Beth yw'r pethau gorau am yr ysgol?	Ffrindiau, siarad Cymraeg glân a gloyw, delio efo problemau, lle hapus, dim llawer o fwlio, gwersi da, amser cinio, athrawon da, cymhorthfa, cinio da, staff caredig, Astro, Llyfrgell, rheolau, diogelwch, yn dawel yma, gemau tai, addysg dda, canlyniadau da, gwisg taclus, bloc technoleg, popeth, help cymorthyddion, clybiau chwaraeon	
16.	Pa welliannau y buasech yn dymuno eu gweld?	Côt o baent i ambell i le, cloeon ar toiledau'r genod, llai o gwm cnoi, bwlio ar y bws weithiau, mwy o buddies, cwrt pêl fasged, dim, gwella'r cae – draenio, amrywiaeth bwyd, dim/llai o waith cartref, biniau/cloeon yn y toiledau, pyst rygbi, siorts yn yr haf, gwisgo tei, sanau lliw gwahanol, toiledau newydd, adeiladau newydd, mwy o weithgareddau amser cinio, cae rygbi, mwy o dripiâu, papur a sebon i'r toiledau/tapiâu'n gweithio, cyfrifiaduron newydd, mwy o beli, mwy o waith plant ar y coridorau, "bring back sausage rolls", dim esgidiau du, gwresogi gwell mewn rhai ystafelloedd, tripiâu dramor, platiau glân, mwy o fwyd olaf, buddies bl 8 ar gyfer bl 7 – "less intimidating"	



CANLYNIAD HOLIADUR RHIENI HAF 2014

DYMA GANLYNIADAU'R HOLIADUR A LENWYD GAN DROS 140 O RIENI DROS GWYLIU'R HAF

		😊	☹️
1.	Mae fy mhentyn yn hapus yn yr ysgol.	98%	2%
2.	'Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.	100%	0%
3.	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.	97%	3%
4.	Mae'r staff yn trin fy mhentyn yn deg a gyda pharch.	98%	2%
5.	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.	99%	1%
6.	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.	96%	4%
7.	Mae adeiladau ac ystafelloedd yr ysgol yn ddiogel a saff.	99.5%	0.5%
8.	Mae'r newidiadau yn yr ystafelloedd newid yn y gampfa wedi eu gwneud yn fwy preifat.	96%	4%
9.	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.	98%	2%
10.	'Mae fy mhentyn yn gwybod at bwy i droi os oes pryder am unrhyw beth.	96%	4%

Sylwadau ychwanegol

- 8 Mad** – Mae fy mhentyn yn hapus iawn yn yr ysgol. Braff oedd ei gweld yn blodeuo yn ystod ei blwyddyn gyntaf ym Motwinnog mewn amgylchedd diogel. Cefnogaeth holl aelodau'r staff yn arbennig.
- 9 Mad** – Heb ateb cwestiwn rhif 8 ynglŷn â'r newidiadau yn yr ystafelloedd newid yn y gampfa gan nad wyf wedi ei gweld drostaf fy hun!
- 9 Mell** – Hapus iawn gyda'r cyswllt rhyngom, yr agwedd bositif a roddir ar addysg, y cyfleon, ansawdd y dysgu a'r ffaith fod fy mhentyn yn hapus sy'n hanfodol i ddysgu.
- 10 Mell** – Dim bob aelod o staff. Dim bob tro. (Ymateb i gwestiwn 4)
- 11 Mad** – Mi fuaswn yn gwerthfawrogi cael gwybod am ddatblygiad yr arolwg iaith a gafodd ei gynnal.

Diolch yn fawr i'r disgyblion a'r rhieni sydd wedi llenwi holiadur Lles yr ysgol. Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i bob cwestiwn.

Mae'r cwestiynau isod wedi sgorio'n dda iawn yn yr holiaduron ond ychydig bach yn is na gweddill y cwestiynau. Dyma ymateb yr ysgol:-

'Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch'.

Mae hyn yn flaenoriaeth uchel a sylfaenol fel ysgol. Dylai unrhyw riant sy'n teimlo nad yw hyn yn digwydd gysylltu â'r Pennaeth neu Mr. Michael Strain, Cadeirydd y Llywodraethwyr (trwy'r ysgol).

'Yn yr ysgol hon ni chaiff disgyblion eu pryfocio oherwydd eu bod yn wahanol.'

O hyn hyd y Nadolig byddwn yn atgoffa'r disgyblion o gynnwys a phwysigrwydd ein Polisi Cydraddoldeb a'r Polisi Atal Bwlio. Mae mwyafrif llethol ein disgyblion yn parchu eu cyd ddisgyblion. Os oes disgybl yn pryfocio neu difrio neu fwlio plant eraill cysylltwch â'r ysgol.

BOCS SYNIADAU / PRYDERON / ARGYMHELLION

Ar gais y disgyblion mae bocs syniadau wedi leoli yn y swyddfa ac yn y Llyfrgell.

Mae croeso i chi fel rhieni gysylltu i wneud awgrymiadau ar sut i wella'r ysgol ymhellach. 'Rydym yn awyddus i bob rhiant deimlo fod pob agwedd o waith yr ysgol yn dda. 'Rydym yn edrych ymlaen at eich sylwadau. Gallwch ffonio aelod o'r Tîm Rheoli, Gareth Jones, Geraint Hughes, Dylan Minnice (01758 730220), gallwch anfon llythyr at Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mr. Michael Strain (i'r ysgol), neu anfon e-bost at:

pennaeth@botwinnog.gwynedd.sch.uk

'Rydym yn edrych ymlaen i argraffu detholiad o awgrymiadau yn y bwletin nesaf yn y Gwanwyn.

'MAE POB PLENTYN YN CYFRI', MAE POB DIWRNOD YN CYFRI''

Yma yn Ysgol Botwnnog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf 'rydym wedi bod yn edrych yn ofalus ar ddwy agwedd o fywyd yr ysgol a sut y gallwn ei ddatblygu a'i wella ymhellach.

1. Presenoldeb

Heb bresenoldeb da (96%) ofer yw ein holl ymdrechion i baratoi addysg o safon uchel i'ch plentyn. Os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol ni all gyrraedd ei lawn botensial. Mae ymchwil yn dangos fod plant nad ydynt yn yr ysgol yn colli addysg, cyfleoedd cymdeithasol a phrofiadau hanfodol i ddatblygu eu sgiliau. Mae hyn yn arwain yn y pen draw at berfformiad is yn yr arholiadau. Mae'n polisi presenoldeb yn nodi na allawn awdrudodi unrhyw wyliau yn ystod y tymor ysgol ym mlynnyddoedd 10 ac 11 a dim ond am 5 diwrnod, os derbynnir cais ysgrifenedig ymlaenllaw, ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9. Fel arall mae'n cael ei gofnodi fel absenoldeb heb awdrudod ar gofnod eich plentyn. Mae i bawb darged o 96% presenoldeb dros y 5 mlynedd maent yn Ysgol Botwnnog. Os disgyn y presenoldeb ond i 90% yn y cyfnod yma mae'n gyfystyr â cholli hanner blwyddyn o wersi! Pan fydd eich plentyn yn sâl cadwch hwy adref am y lleiafswm o amser sy'n rhaid, fel arall os yw'n dioddef o fân salwch, fel anwyd neu gur pen gyrrwch hwy i'r ysgol. Cofiwch fod y Cyngor Sir yn monitro presenoldeb eich plentyn ac efo'r cyfrifoldeb a'r hawl i weithredu os yw'n dirywio.

2. Cydraddoldeb

Mae hawliau pob plentyn i addysg heb ragfarn o unrhyw fath yn sylfaenol i Ysgol Botwnnog.

Mae Ysgol Botwnnog yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod fod gan bawb anghenion a thueddiadau gwahanol. Yn **Ysgol Botwnnog byddwn yn parchu unigolion beth bynnag fo eu:**

- Tarddiad ethnig
- Rhyw
- Oedran
- Statws priodasol
- Tueddiadau rhywiol
- Anabledd
- Crefydd (neu anffyddiaeth)
- Iaith
- Cenedl
- Dibynnyddion

Ein nod yw:-

- Creu ethos o ddiogelwch a gwerthfawrogiad
- Creu ymdeimlad o hunan barch
- Gosod disgygliadau uchel ar ddisgyblion a'u rhieni
- Rhoi ystyriaeth addas i anghenion dysgu
- Adnabod gweithdrefnau eglur ar gyfer ymateb i ddigwyddiad gwahaniaethol
- Herio ymddygiad rhagfarnllyd a stereoteipiau
- Hyrwyddo delweddau positif
- Lleihau digwyddiadau bwlio flwyddyn ar flwyddyn

Mae hyn yn wir am y Corff Llywodraethol, Uwch Dîm Rheoli, Staff, Ymwelwyr a Chontractwyr yn gweithio yn yr ysgol.

Mae copi llawn o'r Polisiâu Presenoldeb a Chydraddoldeb ar wefan yr ysgol www.botwnnog.org. Cysylltwch â'r Dirprwy, Mr. G.O. Hughes os am wybodaeth bellach.